**Tasg 1**

# Anifeiliaid rhyfedd

a.



b.



c.



ch.



d.



1. Darllenwch y disgrifiadau ac yna matsiwch y llun a'r disgrifiad.
Dyma eiriau i'ch helpu chi:

| Geirfa | |
|---|---|
| rhyfedd | strange |
| blew | fur |
| llygaid | eyes |
| cryf | strong |
| gwddwg | neck |
| coesau | legs |
| hir | long |
| tenau | thin |
| swil | shy |
| clustiau | ears |
| trwyn | nose |
| pen ôl | backside |
| brigau | twigs |
| cynffon | tail |
| pryfed | insects |

**Anifail 1**

Mae’r anifail yma tua 60 cm ac mae e’n llwyd neu’n ddu. Mae tair cot o flew hir gyda fe felly mae e’n hapus iawn yn y tywydd oer – dydy e ddim yn teimlo’n oer! Mae blew dros ei lygaid hefyd.
Mae e’n dod o ogledd yr Eidal, o ardal Bergamo, ac mae e’n bwyta cig.
Mae e’n gryf ac mae e’n dda am weithio gyda defaid. Mae e’n dda iawn efo plant.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 2**

Mae’r anifail yma tua 150 cm ac mae e’n frown. Mae gwddwg hir iawn gyda fe ac mae e’n bwyta dail o’r coed. Mae pen bach gyda fe ond mae clustiau a llygaid eitha mawr gyda fe. Mae coesau hir, tenau gyda fe ac mae e’n gallu rhedeg yn gyflym. Mae e’n dod o Affrica.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 3**

Mae’r anifail yma tua 1.5 m - 2 m ac mae e’n frown. Mae e’n swil iawn. Mae clustiau mawr a thr-wyn hir gyda fe ac mae streipiau ar ei ben-ôl.
Mae e’n dod o Affrica – o’r Congo – ac mae e’n bwyta dail, brigau a ffrwythau.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 4**

Mae’r anifail yma’n fach iawn tua 9 cm - 16 cm ond mae cynffon hir, llygaid mawr – tua 16 mm – clustiau bach a thrwyn byr gyda fe. Mae coesau hir iawn gyda fe ac mae e’n gallu neidio o goeden i goeden. Mae e’n frown neu’n llwyd.
Mae e’n dod o Ynysoedd y Pilipinas (y *Philippines*)ac mae e’n bwyta pryfed fel arfer. Mae e’n cysgu yn y dydd ac yn chwilio am fwyd yn y nos.

Pa anifail (a-d)?

**Anifail 5**

Mae’r anifail yma tua 36 cm - 43 cm ac mae cynffon hir, 56 cm - 61 cm gyda fe. Mae e’n frown neu’n llwyd neu’n ddu ac mae trwyn byr, clustiau mawr iawn a llygaid mawr gwyrdd gyda fe. Mae e’n rholio fel pêl ac yn cysgu yn y dydd ac mae e’n chwilio am fwyd yn y nos. Mae e’n bwyta larfa, coconyt a ffrwythau fel arfer
Mae e’n dod o Madagasgar ac mae e’n byw yn y fforest law.

Pa anifail (a-d)?

2. Beth ydy’r anifeiliaid?

| | |
|---|---|
| Llun a. | |
| Llun b. | |
| Llun c. | |
| Llun ch. | |
| Llun d. | |

Mae’r atebion yn yr **Adran Atebion**.